

Adroddiad Trosolwg y Grŵp Ansawdd Aer (Tachwedd 2024)

1. Cyflwyniad

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan y Grŵp Ansawdd Aer amlasiantaeth a sefydlwyd mewn ymateb i gwynion am aroglau yn deillio o Safle Tirlenwi Withyhedge. Mae'n rhoi trosolwg o'r sefyllfa sy'n ymwneud â monitro ansawdd aer a wneir gan nifer o asiantaethau mewn ymateb i bryderon a chwynion y gymuned ynghylch yr allyriadau arogl hyn.

2. Cefndir

Mae Safle Tirlenwi Withyhedge yn cael ei weithredu gan Resources Management UK Ltd (RML) dan ddarpariaeth trwydded amgylcheddol – rhif trwydded EPR/MP3330WP.

Ym mis Hydref 2023, dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac i raddau llai Cyngor Sir Penfro (CSP), dderbyn nifer barhaus o gwynion gan y cymunedau o amgylch y safle tirlenwi yn adrodd am arogleuon annymunol. Mae'r arogleuon annymunol yn cael eu hachosi gan yr allyriadau afreolus o'r safle tirlenwi.

3. Pwrpas y Grŵp Rheoli Digwyddiadau strategol a'r Grŵp Ansawdd Aer

Mewn ymateb i'r cwynion a phryderon parhaus hyn, sefydlwyd grwpiau amlasiantaeth, sef Grŵp Ansawdd Aer penodol a Grŵp Rheoli Digwyddiadau â throsolwg strategol, ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024 yn y drefn honno. Mae'r Grŵp Rheoli Digwyddiadau yn gyfrifol am y canlynol:

“cynnal trosolwg o'r ymateb i ddigwyddiadau gan gyrrff aelodau unigol, yn ogystal â'r Grŵp Ansawdd Aer, o dan eu rôl a'u cylch gorchwyl mewn perthynas â materion arogleuon Safle Tirlenwi Withyhedge, yn ogystal â goruchwyllo'r grŵp strategaeth gyfathrebu, a chydlynu cyfathrebu allanol i randdeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach. Bydd y Grŵp Rheoli Digwyddiadau yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei barhau mewn ymateb i'r digwyddiad arogleuon a bod cyfathrebiadau priodol yn cael eu darparu.”

Sefydlwyd y Grŵp Ansawdd Aer ym mis Chwefror 2024, o dan gadeiryddiaeth CNC i ddechrau, i drafod cwmpas y gwaith monitro ansawdd aer sydd ei angen, gyda golwg ar sefydlu ansawdd yr aer y mae pobl yn agored iddo a phennu risg bosibl i iechyd pobl.

3.1 Nod y Grŵp Ansawdd Aer

Nod y Grŵp Ansawdd Aer yw dod ag arbenigwyr technegol amlasiantaeth ynghyd i asesu ansawdd yr aer amgylchynol, gan gynnwys allyriadau o'r safle tirlenwi sydd â'r potensial i effeithio ar ansawdd aer, i lywio datblygiad rhaglen monitro ansawdd aer y gymuned, ac i asesu'r risg bosibl i iechyd y cyhoedd yn erbyn y safonau/canllawiau iechyd sydd ar gael.

3.2 Rôl ac amcanion y Grŵp Ansawdd Aer

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- i. Cyrraedd consensws rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Sir Penfro ac CNC ar ffordd gytunedig o fonitro ansawdd aer o amgylch y safle tirlenwi

- ii. I lechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu cyngor iechyd y cyhoedd trwy fforwm pwrpasol
- iii. Ystyried gwybodaeth o waith modelu a monitro a digwyddiadau tebyg eraill i ddarparu dehongliad o'r data monitro ac asesu risg i ansawdd aer ac iechyd y cyhoedd
- iv. Cydgysylltu â gweithredwr y safle a'i gontractwr monitro ansawdd aer penodedig ar ofynion monitro

Roedd CNC yn cadeirio'r Grŵp Ansawdd Aer i ddechrau, a chymerodd Cyngor Sir Penfro yr awenau ar 16 Mai 2024 yn dilyn penderfyniad yn y Grŵp Rheoli Digwyddiadau ar 7 Mai.

4. Rhaglen fonitro

Ers mis Chwefror 2024, mae gwaith monitro wedi'i wneud, o hydrogen sylffid (H₂S) yn bennaf.

Yn gynnar iawn, penderfynodd y Grŵp Monitro Ansawdd Aer y dylai H₂S fod yn baramedr allweddol ar gyfer monitro. Mae'n llygrydd sy'n peri pryder ac yn elfen hysbys o nwy tirlenwi. Y prif nwyon mewn safle tirlenwi fel arfer yw methan a charbon deuocsid. Fodd bynnag, gall nifer o gyfansoddion eraill fod yn bresennol hefyd a gall rhai o'r rhain fod yn aroglus. Mae cyfansoddion o'r fath yn aml yn seiliedig ar sylffwr a gallant gynnwys hydrogen sylffid. Gan fod hydrogen sylffid yn gallu achosi aroglau ac y gellir ei fesur yn hawdd, mae'n cael ei ddefnyddio fel dirprwy ar gyfer presenoldeb posibl nwy tirlenwi. Fodd bynnag, cydnabyddir bod ystod eang o gyfansoddion a ffynonellau a all hefyd gynhyrchu cyfansoddion aroglus fel hydrogen sylffid.

Dechreuwyd y gwaith monitro i ddechrau gan Geotechnology Ltd ar y safle ac oddi arno ym mis Chwefror 2024, drwy ddefnyddio tiwbiau tryledu sefydlog ar gyfer H₂S. Wrth i amser fynd yn ei flaen ac wedi'i ddylanwadu gan drafodaeth trwy'r Grŵp Ansawdd Aer, ychwanegwyd dulliau ychwanegol, megis defnyddio monitorau Jerome, a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith arolygu adweithiol a thymor byr mewn lleoliadau a oedd yn adlewyrchu amlygiad preswylwyr.

Comisiynwyd Ricardo yn annibynnol ar y cyd gan CSP ac CNC i ddarparu monitro sefydlog o H₂S. Y rheswm pam y comisiynwyd y gwaith hwn oedd er mwyn darparu monitro cyson a pharhaus o ansawdd aer cefndirol. Cyn hyn, roedd gwaith monitro a gwblhawyd gan CNC a swyddogion CSP, yn dilyn methodoleg aciwtedd oddrychol (h.y. lefelau aroglau a dystwyd), yn ymatebol ei natur yn ogystal ag ar adegau penodol o'r dydd, ond cafwyd anawsterau wrth gael set ddata o ganlyniadau cyson a dibynadwy.

Cyflawnwyd monitro ychwanegol hefyd gan CSP ac CNC gan ddefnyddio monitorau Jerome llaw.

Mae'r strategaeth fonitro a ddatblygwyd gan yr Grŵp Ansawdd Aer yn adlewyrchu lleoliadau lle mae cwynion wedi'u derbyn a lle mae aelodau'r cyhoedd yn debygol o fod. Mae'r Grŵp Ansawdd Aer wedi cydnabod bod manteision ac anfanteision i'r offer monitro a ddefnyddir.

- Mae gan diwbiau tryledu amser amlygiad hir, sy'n golygu bod uchafbwyntiau (ac isafbwyntiau) crynodiadau nwy yn cael eu disodli gan gyfartaledd.
- Mae'r dadansoddwr Jerome yn gweithredu'n agos at ei derfyn canfod (LoD), sy'n agos at y safonau ar sail iechyd a ddefnyddir yn asesiad risg iechyd y cyhoedd. Mae ganddo derfyn canfod o $5 \mu\text{g}/\text{m}^3 \pm 1 \mu\text{g}/\text{m}^3$ ([brookfieldengineering](#)), sy'n cyfateb i tua 20% o hyder ar y terfyn canfod. Mae gan fonitor Jerome hefyd y fantais y gellir ei osod mewn lleoliad sefydlog, ar yr amod bod cyflenwad pŵer a bod y lleoliad yn ddiogel.
- Gall tiwbiau tryledu cyfansoddion organig anweddol gyflwyno data arteffactau oherwydd technegau labordy. Yn ogystal, ar grynodiadau isel mae gan y dechneg hyder isel yn y cyfansoddion a nodwyd.
- Monitor sefydlog (dadansoddwr Model T102) a gorsaf dywydd wedi'u gosod yn Ysgol Spittal gan Ricardo. Mae gan yr offer hyn derfyn canfod is (yn agos at sero ppb ar gyfer H₂S) nag, er enghraifft, monitor Jerome.

Gall y math o fonitro, boed yn sefydlog neu'n symudol, newid dros amser. Mae hyn yn galluogi'r dull monitro i fod yn hyblyg. Mae rhagor o fanylion am y gwahanol ddulliau hyn i'w gweld isod.

4.1 Cymharu data

Mae'r canlyniadau a gafwyd wedi'u cymharu â chanllawiau ansawdd aer, lefelau risg isaf a chrynodiadau cyfeirio ar gyfer H₂S (gweler y tabl isod). Mae angen i ddata a dynnir o ddadansoddwr Jerome gael ei gyfartaleddu dros y cyfnod monitro o 30 munud er mwyn ei gymharu â chyfartaledd 30 munud Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer H₂S. Mae hyn yn cynnwys data o fonitor sefydlog Ricardo.

Gwerth canllaw tymor byr Sefydliad Iechyd y Byd o $7 \mu\text{g}/\text{m}^3$ (5 ppb) dros gyfnod cyfartalog o 30 munud yw gwerth arogl tymor byr sy'n gwarchod rhag tarfiad gan aroglau.

Yn unol â'r strategaeth fonitro y cytunwyd arni gan y Grŵp Ansawdd Aer, os yw'r data monitro yn uwch na'r lefel sbardun o 600 ppb (lefel ganllaw amlygiad aciwt (AEGL)-1, 30 munud), yna bydd y Grŵp Ansawdd Aer yn cael ei hysbysu trwy e-bost gan yr unigolion sy'n gyfrifol am y monitro o fewn 24 awr, a bydd y Grŵp Ansawdd Aer yn cwrdd i adolygu ei asesiad risg i ystyried y camau nesaf. Ers sefydlu'r monitro ym mis Chwefror 2024, ni fu achos o fynd y tu hwnt i'r trothwy hwn.

| Canllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd | Lefel risg isaf Asiantaeth ar gyfer Sylweddau Gwenwynig a Chofrestrfa Clefydau** | Crynodeiad cyfeirio Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Unol Daleithiau*** |
|---|---|--|
| 30 munud (cyfartaledd)* 7 µg/m ³ (5 ppb) Yn seiliedig ar darfiad gan aroglau | Canolradd (hyd at flwyddyn) 30 µg/m ³ (20 ppb) Yn seiliedig ar friwiau i'r epitheliwm arogleuol trwynol mewn llygod | Ar gyfer asesiad o amlygiad am oes gyfan 2 µg/m ³ (1 ppb) Yn seiliedig ar friwiau i'r epitheliwm arogleuol trwynol mewn llygod |
| 24 awr (cyfartaledd) 150 µg/m ³ (107 ppb) Yn seiliedig ar lid llygaid mewn pobl | | |

* Mae gwerth canllaw Sefydliad Iechyd y Byd o 7 µg/m³ (5 ppb) dros gyfnod cyfartaleddu o 30 munud yn werth arogl tymor byr sy'n gwarchod rhag tarfiad gan aroglau.¹

** Mae lefel risg isaf yn amcangyfrif o amlygiad dyddiol dynol i sylwedd peryglus sy'n debygol o fod heb risg sylweddol o effeithiau niweidiol nad ydynt yn ganseraidd dros gyfnod penodol o amlygiad. Maent yn cael eu deillio ar gyfer cyfnodau amlygiad aciwt (>1, ≤14), canolradd (>14, <364 diwrnod) a chronig (365 diwrnod a hwy).²

*** Amcangyfrif (gydag ansicrwydd yn rhychwantu efallai trefn maint) o amlygiad anadliad parhaus i'r boblogaeth ddynol (gan gynnwys is-grwpiau sensitif) sy'n debygol o fod heb risg sylweddol o effeithiau niweidiol yn ystod oes gyfan.³

5. Ffynonellau data

Mae'r adroddiad trosolwg hwn yn ystyried ffynonellau data gan Geotechnology Ltd, Cyngor Sir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru a Ricardo. Mae nifer o adroddiadau allweddol a chrynodebau wedi'u hatodi i'r trosolwg hwn, a chyfeirir at adroddiadau llawn pellach hefyd yn y ddogfen hon ac fe'u cyflwynir nhw ar dudalennau gwe CSP yn:

[Ansawdd aer – Cyngor Sir Penfro](#)

a. Geotechnology Ltd

Comisiynwyd Geotechnology Ltd i ddarparu trefn fonitro ar ran RML mewn ymateb i bryderon am effeithiau iechyd allyriadau o safleoedd. Dechreuodd y gwaith monitro hwn ar 5 Chwefror 2024 gyda thiwbiau tryledu H₂S ar ac oddi ar y safle i adlewyrchu'r boblogaeth breswyl o amgylch y safle. Cynhaliwyd gwaith ystyried a monitro am gyfnod byr ar gyfer cyfansoddion organig anweddol (yn ogystal â thiwbiau tryledu ar gyfer H₂S). Daeth y gwaith monitro cyfansoddion organig anweddol i ben oherwydd yr ystyriwyd trwy drafodaeth yn y Grŵp Ansawdd Aer bod y cemegau a nodwyd yn is na safonau a chanllawiau seiliedig ar iechyd (lle mae'r rhain yn bodoli) ac nad oeddent o reidrwydd yn cynrychioli allyriadau o'r safle. Aeth y gwaith monitro yn ei flaen i gynnwys monitro Jerome yn y tymor byr yn ogystal â gwaith arolygu gan ddefnyddio monitor Jerome mewn lleoliadau preswyl. Mae'r monitro hwn yn parhau.

Mae adroddiadau misol o Chwefror 2024 i'w gweld yn **Atodiad 1**.

b. Cyngor Sir Penfro

Darparwyd hyfforddiant aciwtedd ar gyfer monitro arogleuon ymatebol i swyddogion o Dîm Diogelu'r Cyhoedd CSP gan Ricardo ym mis Mai 2024 a chynhaliwyd rhaglen fonitro gan swyddogion o fis Mai i fis Mehefin 2024 yn dilyn yr un lleoliadau monitro a ddefnyddir gan CNC. Ategwyd y monitro hwn ar adegau gan fonitro Jerome, ond roedd yn bennaf yn dilyn hyfforddiant a methodoleg a ddarparwyd gan Ricardo ar gyfer asesu arogleuon. Mae canlyniad y monitro hwn i'w weld yn **Atodiad 2**.

Cyflawnwyd monitro cwynion hefyd gan swyddogion o CSP mewn ymateb uniongyrchol i gwynion o fis Rhagfyr 2023 a monitro ad hoc o amgylch y safle. Ni fu'r monitro hwn yn llwyddiannus gan nad oedd y rhan fwyaf o'r achwynwyr yn galw ar adeg tystio i'r arogleuon, a phan ymwelodd swyddogion, roedd y aroglau niwsans wedi mynd.

Nododd y gwaith monitro aciwtedd hwn yr arogleuon tirlenwi ar adegau, ond nododd hefyd y gallai arogleuon gael eu priodoli i ffynonellau eraill sy'n codi yn yr ardal. Daeth y gwaith monitro hwn i ben yn rhannol oherwydd nad oedd y canlyniadau'n dod o hyd i unrhyw arogleuon nwy tirlenwi sylweddol, yn rhannol oherwydd bod cwynion uniongyrchol yn prinhaus, ac yna oherwydd bod y safle tirlenwi yn rhoi'r gorau i dderbyn gwastraff.

c. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Prif rôl CNC fel rheoleiddwr y safle tirlenwi yw penderfynu a yw arogleuon llygru yn cael eu nodi mewn lleoliadau oddi ar y safle. Ategwyd yr asesiadau hyn gan ddefnyddio monitor Jerome i gael samplau ar hap, a lle mae arogleuon tirlenwi wedi'u canfod, ffigurau cyfartalog am 30 munud. Mae'r asesiadau arogl yn dilyn llwybr penodol gyda lleoliadau sefydlog yn y cymunedau o amgylch y safle tirlenwi lle mae cwynion wedi'u lleisio. Ar sail ad hoc, gall lleoliadau ychwanegol gael eu cynnwys wedi'u llywio gan adroddiadau am digwyddiadau a phrofi arogleuon wrth deithio rhwng lleoliadau penodol.

Mae monitro tymor byr (parhaus dros gyfnod o rhwng ychydig ddyddiau ac ychydig wythnosau) o H₂S hefyd wedi digwydd mewn lleoliadau sefydlog yn Spittal, Maenordy Scolton a Crundale. Mae CNC wedi defnyddio data tywydd a gafwyd drwy'r monitor sefydlog yn Ysgol Spittal i helpu i bennu amodau tywydd yn ystod cyfnodau monitro yn Spittal yn benodol.

Mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn **Atodiad 3**.

d. Ricardo Ltd

Mae monitro annibynnol gan gwmni allanol hefyd wedi'i gomisiynu ar y cyd gan CSP ac CNC i osod monitor sefydlog, sydd wedi'i osod ers 3 Gorffennaf 2024 mewn lleoliad yn Spittal.

Mae'r math hwn o offer wedi galluogi'r contractwr monitro ansawdd aer, Ricardo Ltd, i gynnal arolwg monitro amser real o hydrogen sylffid (H₂S), ynghyd ag adroddiadau cysylltiedig. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y monitro sefydlog yn digwydd mewn unwaith lleoliad sefydlog, sy'n cyfyngu ar ei allu i gofnodi ansawdd aer i'r un lleoliad hwn.

Mae'r monitor hwn wedi'i amserlennu i aros yn ei le am chwe mis, gan gwmpasu tymor y gaeaf sydd i ddod (hyd at ddiwedd mis Rhagfyr), ac ar hyn o bryd mae adolygiad yn mynd rhagddo i benderfynu a ddylid estyn y cyfnod amser hwn hyd nes y bydd y safle'n ailagor ar gyfer derbyn gwastraff ai peidio, a hynny wrth aros i benderfyniad gan y Grŵp Rheoli Digwyddiadau, CSP ac CNC. Y rheswm pam yr ystyrir ei bod yn bwysig bod monitro'n parhau dros fisoedd y gaeaf yw'r tywydd oer, sy'n cyfrannu at arafu unrhyw allyriadau H₂S rhag gwasgaru. Gallai hyn yn ei dro arwain at Groniad o nwy, a allai yn ei dro arwain at gwynion wrth breswylwyr.

Er mwyn sicrhau casglu data manwl gywir, mae gan y monitor hefyd orsaf feteorolegol, sy'n darparu mesuriadau annibynnol o gyflymder a chyfeiriad y gwynt.

Gellir gweld adroddiadau monitro arogleuon wythnosol yn [Ansawdd aer - Cyngor Sir Penfro](#)

Mae adroddiad monitro interim yn defnyddio data wedi'i gadarnhau hyd at ddiwedd Medi 2024 i'w weld yn **Atodiad 4**.

Cydnabyddir bod monitor sefydlog Ricardo wedi bod ar waith yn ystod y cyfnod pan nad yw RML wedi bod yn derbyn gwastraff ar y safle. Serch hynny, byddai nwy tirlenwi gweithredol o'r safle yn dal i gael ei greu ac mae'r fflêr yn dal i fod yn weithredol.

Mae canlyniadau monitro Ricardo o fis Gorffennaf i fis Medi wedi'u cymharu â gwerth canllaw tarfiad gan aroglau Sefydliad Iechyd y Byd o 7 µg/m³ (5 ppb) dros gyfnod cyfartaleddu o 30 munud a gwerth canllaw ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd, yn seiliedig ar lid llygaid mewn pobl, o 107 ppb ar gyfartaledd dros gyfnod o 24 awr.

Mae'r canlyniadau monitro y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad yn Atodiad 4 wedi dangos nad oes unrhyw achosion o fynd y tu hwnt i'r lefel ganllaw ar gyfer llid llygaid. Mae'r monitro yn dangos, fodd bynnag, yn ystod y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi y bu achlysuron ysbeidiol pan fo trothwyon arogleuon wedi bod y tu hwnt i 5 ppb am gyfnodau byr iawn o amser. Digwyddodd yr achosion hyn ar naw achlysur dros bedwar dyddiad gwahanol, gyda hyd pob digwyddiad ddim yn hwy na 30 munud. Roedd hyn yn cyfateb i 0.2% o'r cyfnod monitro. Ymhellach, mae'r trosolwg hefyd yn dangos, ar bedwar o'r naw achlysur pan aethpwyd yn uwch na'r lefel, nad oedd cyfeiriad cyfartalog y gwynt yn gyson â dod o gyfeiriad y safle tirlenwi. Mae Ricardo wedi priodoli hyn i ffynonellau posibl eraill o hydrogen sylffid yn yr ardal o amgylch Spittal.

6. Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid fel rhan o'r Grŵp Rheoli Digwyddiadau a Grŵp Ansawdd Aer amlasiantaeth a ddisgrifir uchod.

Nid oes gan lechyd Cyhoeddus Cymru gyfrifoldebau na phwerau rheoleiddio o ran rheoli neu orfodi safle neu'r gallu i wneud gwaith monitro amgylcheddol. Fodd bynnag, drwy'r Grŵp Ansawdd Aer, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cefnogi partneriaid i fireinio'r strategaeth monitro ansawdd aer o amgylch Safle Tirlenwi Wityhedge. Mae'r Grŵp Ansawdd Aer yn adolygu ac yn gwirio'r data monitro ansawdd aer (gweler uchod) gyda'i gilydd.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn defnyddio'r data monitro sydd ar gael, yn ogystal â gwybodaeth ehangach gan bartneriaid, i ddatblygu asesiadau risg o unrhyw effeithiau ar iechyd y boblogaeth. Yn seiliedig ar yr asesiadau hyn, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu cyngor cymesur ac amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r cyhoedd ar sut i leihau unrhyw risgiau iechyd. Lle bo'n berthnasol, mae lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cysylltu ag asiantaethau arbenigol eraill i hysbysu'r cyngor hwn. Mae holl asesiadau risg iechyd lechyd Cyhoeddus Cymru a chyngor iechyd y cyhoedd cysylltiedig yn cael eu trafod gyda phartneriaid yn y Grŵp Ansawdd Aer a'r Grŵp Rheoli Digwyddiadau ac yna'n cael eu rhyddhau i'r cyhoedd, yn uniongyrchol i'r gymuned leol a thrwy wefan lechyd Cyhoeddus Cymru yn:

<https://icc.gig.cymru/pynciau/asesiadau-risg-iechyd-wityhedge/>

<https://phw.nhs.wales/topics/wityhedge-health-risk-assessments/>

Bydd asesiad risg iechyd a chyngor lechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gael eu hadolygu a'u diweddarau wrth i fwy o ddata monitro ddod ar gael i'r sefydliad.

7. Casgliadau'r Grŵp Ansawdd Aer

Ers sefydlu'r Grŵp Ansawdd Aer ym mis Chwefror 2024, a derbyn adroddiadau cychwynnol o waith monitro ansawdd aer a gynhaliwyd gan Geotechnology Ltd (gan ddefnyddio monitor Jerome) a monitro aciwtedd arogleuon gan CNC ac CSP, cydnabyddir bod y gymuned wedi profi cyfnodau o lefelau uwch o H₂S y tu hwnt i werth canllaw tarfiad aroglau Sefydliad lechyd y Byd o 5 ppb. Roedd hyn hefyd yn cyddaro â nifer uchel o gwynion a dderbyniwyd gan CNC wrth drigolion yr ardal, a nifer llai o gwynion a dderbyniwyd gan CSP. Dangosodd canlyniadau'r tiwbiau tryledu ei bod yn ymddangos bod lefel hirdymor H₂S yn y gymuned yn is na'r gwerthoedd canllaw hirdymor ar sail iechyd.

Ers mis Mai 2024, pan roddodd y safle tirlenwi y gorau i dderbyn gwastraff, ynghyd â nifer o fesurau ymyrraeth ar y safle i reoli allyriadau H₂S, bu gostyngiad yn y cwynion a dderbyniwyd. Mae cyflwyno monitro sefydlog Ricardo wedi darparu nifer o fanteision, fel a ganlyn:

- data mwy cadarn oherwydd natur barhaus ei gasgliad ansawdd aer
- y gallu i nodi uchafbwyntiau ar adegau penodol
- cymhariaeth ag amodau gwynt/tywydd ac unrhyw weithgareddau posibl sy'n digwydd ar y safle tirlenwi a'r gymuned ehangach o'i gwmpas

Mae'r gwaith monitro hwn felly wedi'i wella ymhellach drwy groesgyfeirio cyfeiriad a chyflymder y gwynt, sydd wedi cynorthwyo i ddadansoddi ffynonellau posibl o H₂S y tu hwnt i'r safle tirlenwi yn unig, ac, fel y manylir yn adroddiad Atodiad 4 ac yn Adran

5d uchod, mae wedi nodi ar adegau achlysurol pan fo trothwyon arogleuon wedi bod y tu hwnt i 5 ppb am gyfnodau byr iawn. Nid yw'r gwaith monitro hwn ychwaith wedi nodi unrhyw achlysur lle'r oedd lefelau canllaw Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer lliid llygaid wedi digwydd.

Fodd bynnag, un cyfyngiad ar y monitro sefydlog yw ei fod yn digwydd mewn un lleoliad, gan gyfyngu ar y cwrpas monitro i'r lleoliad hwn.

Mae'r Grŵp Ansawdd Aer wedi adolygu'r rhaglen fonitro o bryd i'w gilydd, a arweiniodd at gytundeb i roi'r gorau i fonitro cyfansoddion organig anweddol oherwydd ystyriwyd bod y cemegau a nodwyd yn is na safonau a chanllawiau iechyd (lle mae'r rhain yn bodoli) ac nad oeddent o reidrwydd yn cynrychioli allyriadau o'r safle.

8. Y camau nesaf

Ceir ymrwymiad ar y cyd i barhau â'r gwaith amlasiantaeth drwy'r Grŵp Ansawdd Aer a'r Grŵp Rheoli Digwyddiadau hyd nes y bydd partneriaid yn cael sicrwydd bod gweithrediadau ar y safle yn cael eu rheoli, a'r effaith ar y gymuned yn cael ei lleihau.

Ymhellach, byddai'r Grŵp Ansawdd Aer yn cefnogi monitro ansawdd aer yn barhaus am gyfnod hyd nes y gellir dangos bod allyriadau'r safle tirlenwi yn cael eu rheoli'n briodol ar ôl i'r safle ailagor ar gyfer gwastraff.

Yn hyn o beth, bydd y Grŵp Ansawdd Aer felly yn parhau i fonitro ac adolygu strategaeth fonitro barhaus, a gweithio ar y cyd â'r Grŵp Rheoli Digwyddiadau i ddarparu gwybodaeth barhaus trwy'r wefan ac ymgysylltiad cyhoeddus i aelodau'r gymuned leol.

9. Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiadau geotechnoleg

Atodiad 2 – Tablau aciwtedd CSP

Atodiad 3 – Tablau CNC

Atodiad 4 – Adroddiad cryno Ricardo